**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA LG 2505 20

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru

6 Awst 2020

Annwyl Mike

**FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL CYNLLUN Y TALIAD SYLFAENOL A CHYMORTH GWLEDIG O 2021 – Ymgynghoriad 31 Gorffennaf 2020 tan 23 Hydref 2020**

Cyhoeddais ymgynghoriad ar 31 Gorffennaf. Mae'n esbonio'r cynigion i sefydlu fframwaith rheoleiddio interim ar gyfer helpu ffermwyr o ddiwedd cyfnod gweithredu cytundeb gadael yr UE (31 Rhagfyr 2020) tan y caiff pwerau newydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) eu cyflwyno. Byddai'r cynigion hyn yn gweithredu'r pwerau yr ydym yn bwriadu eu gwneud trwy atodlen 5 o Fil Amaethyddiaeth y DU.

I weld y ddogfen ymgynghori, cliciwch yma: [https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol](https://llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol)

Mae'r papur ymgynghori'n cynnig nifer o newidiadau mân ond arwyddocaol i'r fframwaith rheoleiddio (UE) a gedwir ar gyfer rheoli'r Cynllun Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru. Bydd yr ymatebion a geir yn effeithio ar gwmpas y ddeddfwriaeth Gymreig y bydd ei hangen i weithredu'r cynlluniau domestig newydd ar ôl 2020, wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau'r cyllidebau.

Ar ôl ymadael â'r UE ym mis Ionawr, fy mwriad oedd ymgynghori ddiwedd y gwanwyn ond bu'n rhaid gollwng yr amserlen oherwydd pandemig y Covid-19. Mae angen deddfwriaeth erbyn 31 Rhagfyr 2020 i sicrhau bod holl agweddau'r cynlluniau yn eu lle, yn enwedig o ran gorfodi safonau Trawsgydymffurfio yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid ar 1 Ionawr 2021. Rwy'n sylweddoli y bydd y cynigion o ddiddordeb i lawer, felly rwyf am gynnal ymgynghoriad llawn o 12 wythnos, sy'n golygu bod angen ei ddechrau nawr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel a ddisgrifir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amaeth y DU, mae pwerau’n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fel mesur dros dro inni allu parhau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru a sicrhau bod sectorau amaeth ledled y DU yn gallu gweithredu’n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE, ac mae’r ymgynghoriad, fydd yn para tan 23 Hydref 2020, yn gyson â hynny.

Rwy’n disgwyl ymlaen at glywed barn y Pwyllgor am y cynigion hyn.  Maen nhw’n rhan bwysig o’r paratoadau ar gyfer ymadael â’r UE a byddant yn rhoi’r dilyniant a’r sefydlogrwydd mawr eu hangen ar ffermio yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd digynsail a chyn trosglwyddo’n ffurfiol i’r cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir ar gyfer y dyfodol.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs